YSGOL ABERCONWY

YSBRYDOLI | CEFNOGI | LLWYDDO    INSPIRE | SUPPORT | SUCCEED



# PROSBECTWS | PROSPECTUS

MORFA DRIVE
CONWY LL32 8ED

+44 (0)1492 593243
+44 (0)1492 592537

info@aberconwy.conwy.sch.uk
www.aberconwy.conwy.sch.uk

# PRIFATHRO MR IAN GERRARD

## CROESO I'N PROSBECTWS

**Rwyf yn falch iawn o fod yn Bennaeth Ysgol Aberconwy – ysgol sy'n rhoi dysgu a chyflawniad yr unigolyn wrth galon popeth a wna. Rydym yn awyddus i bob myfyriwr llwyddo, i gyflawni eu llawn botensial, i fod yn barod at y dyfodol a datblygu'n bobl ifainc hyderus a meddylgar sy'n barod i wynebu heriau byd cyffrous sy'n fwyfwy cystadleuol.**

Mae'r ysgol wedi ei lleoli ar foryd yr afon Conwy, ac yn darparu amgylchedd modern o safon uchel gydag adnoddau ardderchog. Mae ethos yr ysgol wedi'i seilio ar werthoedd traddodiadol fel parch, cyfrifoldeb ac ysbryd cymunedol, ond mae myfyrwyr hefyd yn cael profi'r dechnoleg a'r dulliau addysgu diweddaraf yn yr ystafell ddosbarth.

Rydym yn ymfalchïo yn ein traddodiad a'n hetifeddiaeth Gymreig. Mae'r ysgol yn annog defnyddio'r iaith Gymraeg mewn gwersi a thu allan iddynt, ac rydym yn datblygu ein gallu i ddarparu rhai pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg i'r sawl sy'n eu dymuno.

Rydym yn ffodus iawn i gael tîm o athrawon a staff cynorthwyol ymroddedig a phroffesiynol iawn sy'n disgwyl y safonau uchaf gan eu myfyrwyr, ac ar yr un pryd mae systemau cadarn yr ysgol yn sicrhau bod myfyrwyr yn dysgu mewn amgylchedd diogel a chyfeillgar lle mae athrawon yn addysgu a dysgwyr yn dysgu.

Rydym yn rhannu eich dymuniadau ar gyfer eich plentyn. Er mwyn eu cyflawni, rydym yn dibynnu ar ein partneriaeth cartref-ysgol, ac yn annog rhieni a gofalwyr i gymryd rhan ym mywyd yr ysgol ac yn nhaith addysgol ein plant, ochr yn ochr â thîm o fentoriaid ymroddedig a fydd yn tywys eich plant ar hyd y ffordd.

Gobeithio y cewch flas ar y prosbectws hwn, a chael hyd i'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch, ond byddem hefyd yn eich annog i ymweld â ni er mwyn gweld yr amgylchedd egnïol a chyffrous hwn drosoch eich hun

**Ian Gerrard**
Pennaeth

YSBRYDOLI | CEFNOGI | LLWYDDO

INSPIRE | SUPPORT | SUCCEED









"Mae Aberconwy a'i staff addysgu yn enghraifft wych o sut y gall pob plentyn gyflawni mewn addysg brif ffrwd, o dderbyn y ddealltwriaeth a'r gefnogaeth briodol" *(Rhiant)*

"Aberconwy and its teaching staff are a shining example of, how, given the right understanding and support, all children can achieve in main stream schooling" *(Parent)*

# HEADTEACHER MR IAN GERRARD

## WELCOME TO OUR PROSPECTUS

**I am extremely proud to be the Headteacher of Ysgol Aberconwy - a school that puts learning and individual achievement at the heart of everything it does. We want every student to succeed, to achieve their full potential, be prepared for the future and become confident, thoughtful young people so they leave us ready for the challenges of an exciting and increasingly competitive world.**

Situated in a spectacular location on the Conwy estuary, the school boasts a modern, well-maintained and well-equipped environment. Whilst the school's ethos is based on traditional values of respect, responsibility and community spirit, students experience the very latest technology and teaching methods in the classroom.

We are proud of our Welsh tradition and heritage. The school encourages the use of the Welsh language in lessons and beyond, and we are developing the provision of some subjects through the medium of Welsh for those who want it.

We are very fortunate to have a dedicated and highly professional team of teachers and support staff who expect the very highest standards from all our students, whilst our strong school systems ensure that students learn in a safe and friendly environment where teachers teach and learners learn.

We want the same things that you want for your child. In order to achieve this we rely on our home-school partnership. We encourage parents and carers to get involved in the life of the school and their children's educational journey alongside the dedicated team of mentors that will guide your children along the way.

We hope you enjoy this prospectus and find all the information you need inside it, but would also encourage you to visit us to see this vibrant and exciting environment for yourself.

**Ian Gerrard**
Headteacher

# CEFNOGI EIN GILYDD
# SUPPORTING EACH OTHER

**Rydym yn falch iawn o'n system fugeiliol, a gynlluniwyd i helpu pob myfyriwr i ddatblygu eu huchelgais a chyrraedd eu potensial.**

Trefnwyd yr ysgol yn grwpiau blwyddyn gyda phob 'Pennaeth Blwyddyn' yn cael eu cefnogi gan 'Mentor Blwyddyn' sy'n aelod o'r staff nad ydynt yn addysgu, ac ar gael bob amser I arwain a helpu eich plentyn. Mae'r mentoriaid hyn yn adnabod pob plentyn fel unigolyn ac yn aros gyda hwy drwy gydol eu cyfnod yma yn Ysgol Aberconwy. Byddant yn eu helpu i ymgartrefu yn yr ysgol ac i symud yn eu blaen drwy'r ysgol, yn eu harwain drwy'r broses o wneud dewisiadau at y dyfodol pan ddaw'r amser hwnnw ac yn sicrhau eu bod yn adolygu eu dysgu a'u cynnydd yn rheolaidd.

**We are very proud of our unique pastoral system – designed to support each and every student to develop their ambition and realise their potential.**

The school is organised into year groups with each 'Head of Year' supported by a 'Year Mentor' who, as a member of the non-teaching staff, is always available to guide and help your child. These mentors know each and every student as an individual and stay with them throughout their time here at Ysgol Aberconwy. They will help them to settle in the school and progress through it, will guide them through the process of choosing options for the future when the time comes and will ensure that they review their learning and progress on a regular basis.







YSBRYDOLI | CEFNOGI | LLWYDDO

INSPIRE | SUPPORT | SUCCEED




"Mae'r ysgol yn hyrwyddo cymuned gynhwysol, gefnogol a meithringar yn llwyddiannus, sydd wedi cael effaith fuddiol sylweddol ar les a datblygiad personol disgyblion"
*(ADRODDIAD ESTYN 2018)*

"The school promotes successfully an inclusive, supportive and nurturing community that has a significant beneficial impact on pupils' wellbeing and personal development."
*(ESTYN REPORT 2018)*

# DYSGU GYDA'N GILYDD
# LEARNING TOGETHER

**Un o fanteision mynychu ysgol sy'n llai o faint yw bod gan bob myfyriwr lais.**

Mae gennym systemau cadarn sy'n sicrhau bod llais pob myfyriwr yn cael ei chlywed, naill ai drwy sgwrsio gyda'u Mentor neu drwy'r cyngor ysgol. Etholir pob cynrychiolydd gan aelodau o'r ysgol, sy'n rhoi mandad iddynt i ddylanwadu, helpu a gwrando ar fyfyrwyr eraill. Mae'r Prif Fyfyrwyr yn cyfarfod â'r corff Llywodraethol a'r Pennaeth yn rheolaidd i rannu syniadau ac adborth ar unrhyw faterion sydd yn codi.

**One of the advantages of coming to a smaller school is that every student has a voice.**

We have robust systems in place to ensure that every child can be heard, either through conversation with their Mentor or through the school council. All student representatives are elected by members of the school, giving them a mandate to influence, help and listen to the student body. The Head students meet the governing body and the Headteacher on a regular basis to share ideas and feedback on any issues that arise.

YSBRYDOLI | CEFNOGI | LLWYDDO

INSPIRE | SUPPORT | SUCCEED










"Mae presenoldeb, agwedd a moeseg gwaith myfyrwyr Ysgol Aberconwy wedi bod yn rhagorol. Bu'n bleser mawr eu dysgu ac maen nhw'n dwyn clod i'ch ysgol." *(Twtor cwrs LINC)*

"Ysgol Aberconwy students have been exemplary in their attendance, attitude and work ethic. It has been an absolute pleasure to teach them and they bring great credit to your school." *(LINC course tutor)*

# YMGARTREFU
# SETTLING IN

**Rydym yn gweithio gyda'n hysgolion cynradd lleol i geisio sicrhau bod eich plentyn yn symud heb unrhyw anhawster o flwyddyn 6 i flwyddyn 7, eu bod yn teimlo'n ddiogel yn eu hysgol newydd a bod eu haddysg yn ddi-dor.**

Mae gennym dîm o athrawon ymroddedig sy'n ymweld ag ysgolion cynradd yn ystod y flwyddyn er mwyn dod i adnabod y plant a'u hanghenion, ac i ateb eu cwestiynau am fywyd mewn ysgol uwchradd. Rydym yn cynnal diwrnod rhagarweiniol ym mlwyddyn 5 ac yna wythnos gyfan o weithgareddau a gwersi yn ystod haf blwyddyn 6, fel bod myfyrwyr yn teimlo'n gysurus a chartrefol yn eu hysgol newydd cyn i'r gwyliau ysgol ddechrau.

**We work with our local primary schools to make the transition from Year 6 into 7 as easy as possible for your child, so that they feel secure in their new surroundings and their education is allowed to continue uninterrupted.**

We have a dedicated team of teachers who visit primary schools during the year to get to know children and their needs, as well as answering questions they may have about secondary school. We hold an introductory day in Year 5 and then a full week of activities and lessons in the summer of Year 6, so students are comfortable and confident about their new school before the summer holidays begin.

# ADDYSGU A DYSGU
# TEACHING AND LEARNING

**Yn Aberconwy mae addysgu a dysgu wrth galon popeth a wnawn ac rydym yn rhoi pwys mawr ar ddatblygu perthnasau cadarnhaol rhwng y myfyrwr a'r athro.**

Mae ein dosbarthiadau modern yn gefndir gwych ar gyfer dysgu a mae ein hystafelloedd cyfrifiaduron, canolfan chwaraeon, labordai gwyddoniaeth, llyfrgell, gweithdai technoleg, cyflysterau cerddoriaeth a stiwdio ddrama yn cynnig cyfleusterau arbenigol heb eu hail. Rydym yn cynnig ystod eang, heriol a chyffrous o bynciau. Mae gennym ddisgwyliadau uchel o'n myfyrwyr ac maent yn llwyddiannus iawn – Mae ein holl fyfyrwyr. Blwyddyn ll yn cyflawni pump neu ragor o gymwysterau TGAU neu gymwysterau cyfatebol yn rheolaidd.

**At Aberconwy teaching and learning is at the centre of all we do and we place great importance in developing positive relationships between the student and the teacher.**

Our modern classrooms offer an excellent environment in which to learn and our computer rooms, sports centre, science labs, library, technology workshops, music facilities and drama studio provide outstanding specialist facilities. We offer a broad, challenging and exciting range of subjects. We have high expectations of our students and they achieve highly – all of our Year 11 student cohorts regularly achieve five or more GCSE or equivalent qualifications.

YSBRYDOLI | CEFNOGI | LLWYDDO     INSPIRE | SUPPORT | SUCCEED



"Dydy fy mab erioed wedi mwynhau'r ysgol gymaint â hyn. Mae e'n dweud bod 'hyd yn oed Mathemateg yn hwyl yn Aberconwy" *(Rhiant : Wythnos bontio)*

"My son has never enjoyed school so much. According to him even Maths is fun at Ysgol Aberconwy" *(Parent : Transition week)*

# Y TU HWNT I'R YSTAFELL DDOSBARTH
# BEYOND THE CLASSROOM

**Mae ysgolion rhagorol yn darparu ystod eang o gyfleoedd y tu allan i'r ystafell ddosbarth a mae hyn yn wir am Ysgol Aberconwy.**

Bob blwlyddyn mae ein myfyrwyr yn cael cyfle i fynd ar deithiau lleol i fannau fel Glan Llyn i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg, i Bod Silin, ein bwthyn ysgol yn y mynyddoedd i ddatblygu eu sgiliau GAA, i Ffrainc a'r Almaen i ddatblygu sgiliau iaith ac i Awstria i sgïo! Mae gennym Eisteddfod Ysgol flynyddol, Drama Ysgol a Sioe Gerdd y mae llawer o'n disgyblion cynradd yn cymryd rhan ynddi. Trefnir sesiynau hyfforddi ar gyfer chwaraeon yn rheolaidd, ac mae'r timau'n chwarae mewn cystadlaethau rhwng y Tai ac yn erbyn ysgolion lleol. Mae ein diwrnod yn ymestyn ymhell tu hwnt i'r gloch.

**Excellent schools provide a wide range of opportunities beyond the classroom and Ysgol Aberconwy is no exception.**

Each year our students have the chance of going on local trips to places such as Glan Llyn to develop their Welsh language skills, to Bod Silin our school cottage in the mountains to develop their ODA skills, to France and Germany to develop language skills and Austria to ski! We have an annual School Eisteddfod, School Play and School Musical which many of our primary students take part in. Regular sports training sessions are organised and teams play in house competitions and against local schools. Our day extends well beyond the bell.

# CHWECHED DOSBARTH
# SIXTH FORM

**Pan fydd ein disgyblion yma yn Ysgol Aberconwy wedi cwblhau eu harholiadau TGAU ac wedi cyflawni isafswm o 5 gradd A-C, gallant symud ymlaen i'n chweched dosbarth, lle rydym yn cynnig ystod eang o bynciau. Cedwir meintiau'r grwpiau yn fach, gan roi mwy o gyfle i fyfyrwyr gael sylw unigol.**

Mae ein system fugeiliol yn ymestyn i'r Chweched Dosbarth; mae mentor arweiniol yn cefnogi myfyrwyr chweched dosbarth o ddydd i ddydd ac ar gael bob amser i gyfathrebu â myfyrwyr a rhieni, rhywbeth sy'n werthfawr iawn wrth iddynt gymryd eu camau cyntaf tuag at addysg uwch a byd gwaith.

Mae gennym gyfleusterau chweched dosbarth pwrpasol, sy'n cynnwys ardal astudio y gall myfyrwyr ei defnyddio y tu allan i'r dosbarth gyda mynediad i gyfrifiaduron ac adnoddau astudio eraill. Mae gennym hefyd ardal gymdeithasol y gall myfyrwyr chweched dosbarth ei defnyddio rhwng gwersi.

Yn ogystal â llwyddo ym myd gwaith a phrentisiaethau, mae'r mwyafrif o'n myfyrwyr yn symud ymlaen i wneud gradd, ac mae ein cyn-fyfyrwyr wedi astudio mewn prifysgolion ledled y DU o Southampton i Gaeredin.

**At Ysgol Aberconwy once our students have finished their GCSE's and achieved a minimum of 5 A-C grades, they are able to progress into our sixth form, where we offer a wide range of subjects. Group sizes are kept purposefully small, giving greater opportunity for individual attention.**

Our pastoral system extends into Sixth Form; there is a guidance mentor who supports sixth form students on a daily basis and is always available for student and parental contact, which is invaluable as they start taking their first steps towards higher education or the world of work.

We have dedicated sixth form facilities, which include a study area for students to use outside the classroom with access to computers and other study resources. We also have a social area for sixth form students to use between lessons.

As well as huge success in employment and apprenticeships, most of our student's progress to degree level study and our past students have studied at universities across the UK from Southampton to Edinburgh and everywhere in between.

"Teimlwn fod ein merch yn cael ei haddysgu mewn ffordd a fydd nid yn unig yn gwella'i dysgu ond a fydd hefyd, ymhen amser, yn helpu i ddod â'i hyder yn ôl" *(Rhiant Bl7)*

"We feel that our daughter is getting the teaching that will not only enhance her learning but in time help bring back her confidence" *(Y7 Parent)*







YSBRYDOLI | CEFNOGI | LLWYDDO

INSPIRE | SUPPORT | SUCCEED



YSGOL ABERCONWY

YSBRYDOLI | CEFNOGI | LLWYDDO    INSPIRE | SUPPORT | SUCCEED











MORFA DRIVE
CONWY LL32 8ED
+44 (0)1492 593243
+44 (0)1492 592537
info@aberconwy.conwy.sch.uk
www.aberconwy.conwy.sch.uk